

Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg 2023-2024

Diben

- O 6 Rhagfyr 2023 ymlaen, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) gydymffurfio â 61 o Safonau o dan Reoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 8) 2022 adran 2 (4).
- O dan safon 66, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol gyhoeddi adroddiad, yn y Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n ofynnol i ni ddarparu'r wybodaeth ganlynol;

(1) Rhaid i chi gynhyrchu adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r ffordd yr ydych chi wedi cydymffurfio â'r safonau ble y mae dyletswydd arnoch chi i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn (ble fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—

(a) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn dan sylw a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 60);

(b) nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 62);

(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 63) y swyddi newydd a gwag a hysbysebodd yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categoraiddio fel swyddi lle— (i) roedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol; (ii) roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg wrth gael eich penodi i'r swydd; (iii) roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol.

(3) Rhaid i chi gyhoeddi adroddiad blynyddol yn ddim hwyrach na 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn perthyn iddi.

(4) Rhaid i chi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan.

Adrodd

Cwynion

- Yn 2023-24 ni chawsom unrhyw gwynion yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Mae gennym weithdrefn gwyno ar waith sydd wedi'i chyhoeddi a fyddai'n ein galluogi i ddelio ag unrhyw gwynion ynghylch cydymffurfio â'n safonau. Rhennir adroddiad ar

gwynion, gan gynnwys y rhai ynghylch cydymffurfio, gyda'n Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin bob blwyddyn.

- 1.5 Efallai y byddai'n ddefnyddiol nodi nad oes gan yr Awdurdod rôl wrth reoli cwynion gan y cyhoedd na rôl sy'n wynebu'r cyhoedd.

Recriwtio a gweithwyr

- 1.6 Ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliwyd archwiliad sgiliau o'r holl staff mewn perthynas â'u sgiliau Cymraeg yn unol â safon 62. O fis Rhagfyr 2023 ymlaen, rydym wedi gofyn i bob dechreuwr newydd gwblhau adran ar eu ffurflen dechreuwr newydd i nodi a oes ganddynt sgiliau Cymraeg. Yn 2023-24, ni ddatganodd unrhyw staff sgiliau Cymraeg.
- 1.7 Rhoddwyd cyflwyniad Cynllun Iaith Gymraeg i bob dechreuwr newydd i sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd cydymffurfio â'r safonau.
- 1.8 Yn unol â safonau 63, diweddarwyd ein pro forma recriwtio i sicrhau ei bod yn ofynnol i bob rheolwr recriwtio ystyried a oedd *'(i) sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol; (ii) roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg wrth gael eich penodi i'r swydd; (iii) roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol.'* Yn 2023-24 penderfynwyd nad oedd unrhyw rolau a hysbysebwyd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg.

Gweithredu'r safonau newydd

- 1.9 Crëwyd gweithgor traws-sefydliadol ym mis Ebrill 2023 i ystyried sut y dylid gweithredu'r safonau ar draws y sefydliad a sicrhau bod pob Cyfarwyddiaeth yn deall eu rôl wrth gyflawni hyn.
- 1.10 Datblygwyd a chynhaliwyd cynllun gweithredu ac ym mis Rhagfyr 2023 rhannwyd canllaw proses gyda'r holl staff.

Camau eraill

- 1.11 Cyfieithwyd yr Adroddiad Blynyddol, y Cynllun Busnes a dogfennau allweddol eraill i'r Gymraeg.
- 1.12 Wrth ysgrifennu neu adolygu polisïau mae'n ofynnol i ni gynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA), ac ers mis Rhagfyr 2023 mae ein EIA wedi cynnwys adran sy'n ystyried sut rydym yn bodloni safonau'r iaith Gymraeg.
- 1.13 Ni chawsom unrhyw ohebiaeth yn y Gymraeg gan aelodau'r cyhoedd yn ysgrifenedig na dros y ffôn yn 2023/24.